



Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol (Amser Llawn)

Mae Astudiaethau Crefyddol yn golygu astudiaeth gymdeithasol o Grefydd ac arferion Crefyddol. Mae'n canolbwyntio ar faterion cyfoes ac yn eich annog i ymgysylltu'n feirniadol. Mae'r cwrs yn cynnwys tri thestun, sef Cyflwyniad i Astudio Crefydd, Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg ac Athroniaeth Crefydd. Yn yr ail flwyddyn, mae un o'r testunau'n cael ei astudio mewn mwy o fanylder ac ar lefel uwch.

Gwneud cais am Safon Uwch? Cliciwch 'Gwneud Cais Nawr' ar unrhyw UN o'r pynciau y mae gennych ddi-ddordeb ynddynt, llenwch y ffurflen gais ar-lein ac wedyn cadwch le ar gyfer Noson Wybodaeth i gyfarfod â'r tiwtoriaid a thrafod y pynciau o'ch dewis. Bydd modd i chi wedyn ddewis eich pynciau ar y noson!

Gofynion Mynediad

6 TGAU â Gradd C neu uwch gan gynnwys Saesneg.

Rhagolygon Gyrfa

Mae'r fanyleb hon yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Astudiaethau Crefyddol neu faes cysylltiedig trwy ystod o gyrsoedd addysg uwch (e.e. cwrs gradd yn y maes hwn neu ddisgyblaeth gysylltiedig), camu ymlaen at y lefel nesaf o Gymwysterau Galwedigaethol (e.e. trwy gyfraniad y cymhwyster at ddatblygu sgiliau astudio ymgeiswyr a'u dealltwriaeth am faterion moesegol a chymdeithasol) neu fynediad uniongyrchol i gyflogaeth. Mae'r cyfleoedd cyflogaeth yn sgîl astudio'r pwnc hwn yn niferus, e.e. Nyrsio, Gwaith Cymdeithasol, Addysgu, Newyddiaduraeth, yr Heddlu a Gwaith Gofal.

Modiwlau'r cwrs

Uned 1 (UG). Cyflwyniad i Astudiaeth o Grefydd: Y crefydd a gaiff ei hastudio yw Bwdhaeth. Mae'r uned hon yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr gynnal astudiaeth fanwl ac eang o bedair thema grefyddol sylfaenol: ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig, cysyniadau crefyddol, bywyd crefyddol ac arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol.

Uned 2 (UG). A. Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg - mae'r adran hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth eang a manwl o bedair thema foesebol sylfaenol: meddylfryd moesegol, Deddf Naturiol Aquinas, Moeseg Sefyllfa Fletcher ac Iwtilitariaeth. B. Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd - Mae'r adran hon yn gyfle i ddysgwyr wneud

Coleg Afan	01639 648200	Afan College
Coleg Bannau Brycheiniog	01686 614400	Brecon Beacons College
Coleg Castell-nedd	01639 648000	Neath College
Coleg Y Drenewydd	01686 614200	Newtown College



astudiaeth eang a manwl o bedair thema athronyddol sylfaenol: dadleuon dros fodolaeth Duw – anwythol, dadleuon dros fodolaeth Duw – diddwythol, heriau i gred grefyddol a phrofiad crefyddol.

Uned 3 (U2). Astudiaeth o Grefydd – mae'r uned hon yn bwrw golwg ar bedair thema grefyddol sylfaenol: ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig, datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol, datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol ac arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol.

Uned 4 (A2). Crefydd a Moeseg – mae'r uned hon yn bwrw golwg ar bedair thema sylfaenol: meddylfryd moesegol (rhan 2), moeseg ddeontolegol, penderfyniaeth ac ewyllys rydd. Uned 5 (A2). Athroniaeth Crefydd – mae'r uned hon yn bwrw golwg ar bedair thema athronyddol sylfaenol: heriau i gred grefyddol, profiad crefyddol, ac iaith grefyddol (rhan 1 a 2).

Costau Ychwanegol

Bydd ffioedd ychwanegol yn gysylltiedig â'r cwrs hwn

DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS

2 years

Coleg Afan	01639 648200	Afan College
Coleg Bannau Brycheiniog	01686 614400	Brecon Beacons College
Coleg Castell-nedd	01639 648000	Neath College
Coleg Y Drenewydd	01686 614200	Newtown College